

## Tasg 2

# Beth ar y ddaear... ?

### Digwyddiad lleol

1. Pa fath o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal adeg y Nadolig yn eich ardal chi?

Edrychwch mewn papurau newydd lleol ac yn y papur bro, i weld beth sy'n digwydd.

Gwnewch restr a chymharwch eich rhestr chi â rhestr eich partner.

Beth rydych chi'n ei feddwl o'r digwyddiadau fydd yn cael eu cynnal?

Rhowch reswm i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2. Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i drefnu digwyddiad "gwahanol" i'w gynnal yn eich ardal chi dros yr Ŵyl. Trafodwch:

- pa fath o ddigwyddiad
- beth yn union rydych chi'n mynd i'w wneud
- ble
- pryd – dyddiad ac amser
- fydd angen gwisgo dillad arbennig
- fydd bwyd a diod i'r gwirfoddolwyr – os bydd, pa fath?
- fydd rhaid talu
- unrhyw wybodaeth arall.

a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop / corryn neu ddiagram tebyg.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

c. Gwnewch boster yn perswadio pobl i ddod i fwynhau'r hwyl.

neu

Ysgrifennwch ddarn am y digwyddiad ar gyfer y papur bro lleol neu ar gyfer gwefan yr ysgol. Mwynhewch!